

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

GWILYM YN GENEFA

Taith genhadol 5–19 Medi, 2017

Ychydig fisoedd yn ôl penderfynais byddwn yn ymuno i fynd ar daith genhadol i Brifysgol Genefa gyda'm heglwys leol yn Rhydychen. St Ebbe's. Rwyf wedi fy nghyffroi wrth feddwl am y cyfle newydd hwn y mae Duw wedi ei roi i mi gael rhannu'r newyddion da am Iesu Grist gyda myfyrwyr yn y Swistir. Gobeithiaf ddod â'r hyn a ddysgaf yn Genefa yn ôl i Gymru er mwyn wynebu'r her o ddod â'r Cymry Cymraeg yn ôl at Iesu.

Pam Genefa?

Efallai eich bod yn gofyn, 'Pam Genefa? Onid yw'r Swistir eisoes wedi clywed y newyddion da am Iesu Grist?' Er bod 8.4 miliwn o bobl yn byw yn y Swistir, dim ond 6% ohonynt sy'n mynychu eglwys leol. Yn wir, yn ddiweddar nodwyd bod nifer gynyddol o bobl y Swistir yn gadael yr eglwys oherwydd diffyg gweinidogion ac ansicrwydd diwinyddol. Er bod y Swistir yn gysylltiedig â rhai o ddiwinyddion mwyaf y Diwygiad

Protestannaidd, gan gynnwys John Calvin a Huldrych Zwingli, dim ond ychydig o fyfyrwyr prifysgol sydd wedi clywed ac ymateb i'r newyddion da am Iesu Grist a'i groes. Bellach dim ond 219 o genhadon Protestannaidd sy'n gweithio yn y Swistir sef 1 i bob 38,356 o bobl. Yn wir, fel y dywed yr Apostol Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid:

Ond wedyn, sut mae disgwyl i bobl alw arno os



ydyn nhw ddim wedi credu ynddo? A sut maen nhw'n mynd i greu ynddo heb glywed amdano? Sut maen nhw'n mynd i glywed os ydy rhywun ddim yn dweud wrthyn nhw? A phwy sy'n mynd i ddweud wrthyn nhw heb gael ei anfon? Dyna mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei olygu wrth ddweud: 'Mae mor wych fod y rhai sy'n cyhoeddi'r newyddion da yn dod!' (Rhufeiniaid 10:14–15)

Manylion: Annog ac Efengylu

Cychwynnwn ein pythefnos trwy fynychu fforwm myfyrwyr y GBEU (*Les Groupes Bibliques des Écoles et Universités*) a gynhelir ar lannau llyn Genefa o 7–13 Medi. Bwriad y gynhadledd hon yw casglu Cristnogion sy'n astudio ym mhrifysgolion Ffrengig y Swistir at ei gilydd a'u hannog a'u harfogi i rannu eu ffydd gyda'u cyd-fyfyrwyr. Yn ystod yr wythnos, bydd tîm St. Ebbe's yn pregethu, arwain astudiaethau Beiblaidd a seminarau. Wedi hynny, o 15–18 Medi byddwn ni'n gadael llyn Genefa i gynorthwyo ymgyrchoedd wythnos y glas yr undebau Cristnogol ym Mhrifysgol Genefa a Phrifysgol Lausanne.

Sut allaf fi gefnogi?

Gallwch gefnogi trwy weddio y byddwn ni fel tîm yn unedig gan ganolbwyntio ar Dduw a'r newyddion da am Iesu Grist, beth bynnag yw'r heriau a wynebwn. Hefyd, gallwch weddio dros of fi'n bersonol gan ofyn i Dduw rhoi cyfleodd clir i mi rannu am Iesu Grist a'i gariad gyda'r bobl. Rwyf hefyd angen cymorth ariannol. Bydd fy nhaith yn costio oddeutu **£900** ac rwyf yn dibynnu ar yr Arglwydd i ddarparu ar gyfer Ei waith. Mae hyn yn cynnwys fy nghostau teithio, llety, adnoddau a bywd. Deallaf os na fedrwrch gefnogi yn ariannol ond gwerthfawrogaf os gallwch weddio dros of. Os ydych eisiau gwybod mwy edrychwch ar fy nhudalen Crowdfunding: www.justgiving.com/crowdfunding/geneva_mission.

Gwilym Tudur

Sut i gysylltu –

Rhif ffôn: 07972 687430
 E-bost: gtudur@gmail.com / harri.tudur@wycliffe.ox.ac.uk
 Cyfeiriad: 39 Dorchester Avenue, Pen-y-Lan, Caerdydd, CF23 9BS.
 JustGiving: www.justgiving.com/crowdfunding/genevamisson.

CYFLE, CYFEILLION, CRIST

Dyma'r tri gair a ddaw i'r meddwl wrth gofio am yr amser gwych a dreuliwyd yn Ne Affrica. Wedi astudio hanes De Affrica yn fy nghwrs TGAU eleni, roedd yn dipyn o sioc pan ddaeth y cyfle i'm rhan i ymweld â'r wlad. Roeddwn yn gyffrous iawn wrth gychwyn ar yr antur fawr. Hon oedd fy nghynhadledd gyntaf a doedd gen i ddim syniad beth i'w ddisgwyl, ond buan y des i sylweddoli, o'r cyfarfyddiad cyntaf â nifer o'r cynadledwyr ar y bws o'r maes awyr i Stellenbosch, bod yr wythnos yn mynd i fod yn un arbennig iawn.

Cyfeillach

Roedd digon o amrywiaeth yn rhaglen y gynhadledd, a'r sesiynau yn gryno, gyda chyfleoedd i gymdeithasu â phawb. Gan chynhaliwyd Cynhadledd i'r Ifanc i gyd-redeg a chynhadledd yr oedolion eleni fel yn y gorffennol, roedd yn wych bod yng nghwmni pawb o bob oed. Wedi dweud hynny, un o uchafbwyntiau'r daith i mi



Sara Llwyd gyda ffrindiau newydd o bedwar ban byd

oedd cwrdd fel ieuencid gyda'r nos a chael cyfle i gymdeithasu, trafod, chwarae gemau a gweddio. Datblygwyd cyfeillgarwch cryf rhyngom a des i sylweddoli, er ein bod yn dod o gefndiroedd gwahanol, ac yn siarad ieithoedd gwahanol, roedd un peth yn gyffredin, sef ein cariad at Dduw. Roedd yn brofiad hyfryd bod yng nghwmni Cristnogion ifanc eraill a rhannu profiadau.

Amrywiaeth

Ces flas mawr ar fynychu'r Astudiaethau Beiblaidd, sesiynau Dysgu wrth Wneud ac ymuno yn yr addoliad amrywiol. Roedd Y Cymun yn ystod Oedfa'r Llywydd newydd yn wefreiddiol gan fod cymaint o bobol o wahanol wledydd yn cymryd y bara a'i gwin gyda'i gilydd i gofio am aberth Iesu. Un o'r pethau a fydd yn aros yn fy nghof yw'r daith i'r Maestref, a theimlo ysbryd cymunedol cryf ymhlith y trigolion lleol er nad oedd ganddynt y pethau sydd gennym ni. Rwy'n dal i weld y wên a oedd ar wynebau'r plant bach! Braint hefyd oedd ymweld â chell Nelson Mandela a chael ein hatgoffa am ei ddewrder.

Diolch am daith fendithiol ac am y cyfle i dyfu yn y ffydd a thyfu mewn cyfeillgarwch ac eraill o bedwar ban byd. Diolch am wefannau cymdeithasol sy'n caniatáu i ni gadw mewn cyswllt, oherwydd nid oedd yn hawdd ffarwelio a phawb ar ddiwedd wythnos a ddaeth a phawb mor agos at ei gilydd.

Sara Llwyd

150
1867-2017

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrwl 150

Rhif 31/32

Awst 3, 2017

50c.



CROESO I 'STEDDFOD MÔN

Croeso i 'Steddfod Ynys Môn

Ni cheir fawr o sôn am Ymneilltuaeth ym Môn tan 1715 a bu gwrandawyr cynnar y Sir yn teithio i gyfarfodydd yn Sir Gaernarfon. Un o'r Sir honno oedd William Prichard: gŵr a erlidiwyd o achos crefydd a duwioldeb. Ymsefydlodd ym Môn a ffurfiodd eglwys yng Nghaeu Môn, ger Mona, nepell o faes Sioe Amaethyddol Môn, yn 1744. Adeiladwyd y capel cyntaf yn Rhosymeirch, ger Llangefni, yn 1748. Claddwyd William Prichard yn llawr yr hen gapel.

Mam Annibyniaeth Môn

Cyfeirir at Ebeneser fel y fam eglwys a bu ganddi 42 o ferched ond erbyn heddiw caewyd eu hanner. Un eglwys a erys yw Saron, Bodedern, ym mro'r Eisteddfod, a ffurfiwyd yn 1801. Adeiladwyd y capel presennol yn 1880. Mae hanes Ymneilltuaeth ym Môn yn un hynod ddiddorol ond dyna ddigon am y tro. Diben yr ysgrif yw eich croesawu'n gynnes iawn i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Modern (4-12 o Awst). Hwyrach y gwelwn ni chi ym mhabel yr Eglwysi.

Gwynfor Roberts

Llywydd Cyfundeb Annibynwyr Môn

Eglwys Providence, Llangadog

Ar ddydd Sul, 9 Gorffennaf, y pregethwr gwadd yng Nghyrdau Pregethu Blynyddol Eglwys Providence eleni oedd y Parchg Mererid Mair, Caernarfon. Y mae hi yn wyres i'r diweddar Barchedig T. Alwyn Williams, cyn-weinidog yr Eglwys, a Mrs Hettie Williams, Dolenfys. Croesawyd hi a phawb arall oedd yn bresennol gan y llywydd, Eilyr Roberts. Dewisodd 'Y Bugail Da' fel thema i gyfleu ei negeseuon ar gyfer y ddwy oedfa. Sail ei sylwadau yn ei phregeth yn oedfa'r bore oedd hanes tair gwraig o'r Testament Newydd a'u cysylltiadau hwy â Christ. Arweinydd y Gân oedd John Williams a'r organyddes yn y ddwy oedfa oedd Sara Morgan.

Cwrdd y Pnawn

Cynhaliwyd oedfa arbennig ar gyfer y plant a'r ieuencid yn y prynhawn. Llywyddwyd

yr oedfa a drefnwyd gan Linda Williams gan Rhys Locke, gweinidog o dan hyfforddiant yn yr ofalaeth. Dechreuwyd yr oedfa gydag offrymu gweddi ganddo ac yna estynnodd groeso cynnes i'r cennad. Cyflwynwyd yr emynau gan Ilan Dafydd, Iestyn Thomas, Gruff Jones a Siôn Jones. Cydadroddwyd Salm 23 gan Catrin a Sara Price, a darllenwyd o'r Testament Newydd o gyfieithiad beibl.net gan Iolo Dafydd. Trystan Davies fu'n gyfrifol am offrymu'r weddi. Yn ystod yr oedfa cyflwynwyd eitemau ar gân gan y plant wrth iddynt gyd-ganu 'Wyn y Praidd' ac 'Estyn Dwylo dros y Môr'. Cyfeiliwyd iddynt ar y piano gan Marjorie Hughes. Casglwyd y rhoddion ariannol tuag at hybu gwaith Undeb Ysgolion Sul Dyffryn Tywi gan Ffion Jones a Guto Price.

Wedi cyflwyno neges gofiadwy ac addas



i'r plant am 'Y Bugail Da' dosbarthodd y Parchg Mererid Mair y tystysgrifau a'r tocynnau llyfrau i'r plant am eu gwaith yn ystod yr oedfa ynghyd â chymryd rhan yn 'Hwyl y Gair' a chasglu at y Genhadaeth Dramor yn gynharach eleni.



'YR ARWR' YN ANNIBYNWYR



Llun gan Guto Prys ap Gwynfor

Wrth i ni gofio bod canrif union ers marwolaeth Hedd Wyn, sef Elis Humphrey Evans, yn y Rhyfel Mawr, mae'n werth nodi mai Annibynwyr ydoedd gyda'i wreiddiau yn achos gwledig a hynafol Penstryd, ger Trawsfynydd (yn y llun), lle mae llawer o aelodau'r teulu wedi eu claddu. Bu yntau'n aelod ac yn athro Ysgol Sul am gyfnod yn Ebeneser, Trawsfynydd, a oedd yn rhan o'r un ofalaeth.

Ymaelododd yno am fod y capel yn nes at ei gartref yn Yr Ysgwrn, Cwm Prysor, i'r lle y symudodd y teulu ym mlwyddyn ei eni. Bu'r Parchg Dyfnallt Owen, a fu'n hwyrach yn Archdderwydd ac yn olygydd *Y Tyst*, yn weinidog ar Hedd Wyn o 1897 i 1902, a'r Parchg J. D. Richards o 1903 i 1917. Yn anffodus, mae capel Ebeneser bellach wedi cael ei ddymchwel ond mae capel Penstryd yn dal ar agor.



Cofiadwy

Roedd y cyrddau hyn yn rhai arbennig iawn i aelodau Eglwys Providence a'r ofalaeth oherwydd cafwyd y pleser i groesawu'r Parchg Mererid Mair a'i bechgyn ynghyd â'r Parchg Ronald Williams a Mrs Rhian Williams, ei rhieni. Hyfryd oedd gweld yr wyres yn pregethu yn yr un pulpud â'i diweddar thad-cu ac yn yr eglwys lle codwyd ei thad i'r weinidogaeth.

D. Wyn Williams

RHYDDID

CYNHADLEDD

ANNIBYNWYR Y BYD 2017 YN NE'R AFFRIG

Mae 'caethiwed' yn nodweddu sawl gwlad yn y byd. Hanner canrif, ie dim ond hanner canrif yn ôl, roedd caethiwed yn nodweddu bywyd yn Ne'r Affrig a hynny ar sail lliw croen. Cyfundrefn lywodraethol aflan oedd honno a orfododd *apartheid* ar y wlad. O 5-12 Gorffennaf eleni fe gynhaliwyd Cynhadledd Annibynwyr y Byd yn Stellenbosch ar y thema 'Rhyddid' – rhyddid mewn addoliad; rhyddid meddwl a rhyddid i wasanaethu.

Aeth dwsin ohonom o Gymru i'r gynhadledd.

Roedd y 'deuddeg apostol' yno i gefnogi'r Parchedig Ddr Geraint Tudur, Llywydd Annibynwyr y Byd, ac yntau yn



Y Parchg Ddr Geraint Tudur a'r Parchg Ddr Bruce Theron

trosglwyddo'r awenau i'r Dr Bruce Theron o Dde'r Affrig.

Cynhaliwyd y gynhadledd yn adeilad Coleg Diwinyddol, sy'n rhan o Brifysgol enwog Stellenbosch. Tref yw hon rhyw gwta bum milltir ar hugain o Cape Town; tref yng nghanol y gwinllannoedd. Yn ogystal â darlithoedd a seminarau fe drefnwyd nifer o deithiau byrion hefyd, er mwyn i'r naw deg chwech o gynrychiolwyr gwahanol wledydd gael gweld gogoniannau'r Western Cape.

KAYAMANDI

Y dewis cyntaf o ran teithio oedd naill ai i gapel y caethweision ar un ochr o'r dref neu i drefgordd (*township*) Kayamandi yr ochr arall i Stellenbosch.

Roedd gan sawl cynrychiolydd amheuan am

briodoldeb ymweliad â threfgordd. Ond fe'n sicrhawyd gan y tywysydd y caem dderbyniad llawen gan y trigolion ac y gallai'r ymweliad



Plant Kayamandi



Trefgordd Kayamandi

fod o fudd economaidd i'r trigolion. Yr hyn a welwyd yn Kayamandi oedd cymuned o bobl groesawgar sydd bellach yn dygymod â gwell gwasanaethau fel trydan, carthffosiaeth, clirio ysbwriel yn gyson a dŵr glân.

BRWR'R SUL

Bu'n gyfnod crasboeth yn yr ardal. O'r herwydd mae'r dŵr yn y cronfeydd yn isel iawn. Ar y Sul fe rannwyd yr holl gynrychiolwyr i grwpiau o wyth i ddeg gan ymweld ag un o ddwsin o gapeli'r fro. Aeth y Dr Hefin Jones a minnau i gapel yn nhref fechan Kraiifontein, rhyw bymtheg milltir i ffwrdd. Fe fwriodd law yn drwm nos Sadwrn a bore Sul. Croesawyd Hefin a minnau yn gynnes gyda'r geiriau, 'Thank you. You have brought rain from Wales!' Dyma oedfa a erys yn hir yn y cof.

Gan fod y Llywydd, Dr Geraint, yn pregethu yn Stellenbosch roedd 'na demtasiwn amlwg i fynd yno i'w gefnogi. Cafodd oedfa fendithiol a chapel gorlawn sut bynnag.

Ymhlith y cynrychiolwyr eraill o Gymru i gymryd rhan yn y gynhadledd roedd Gwilym Tudur yn arwain astudiaeth Feiblaidd. Gwnaeth hynny'n hyderus, feistrolgar. Un o'r epilogau cofiadwy oedd honno gan y Parchedig Gethin Rhys. Etholwyd y Parchedig Beti-Wyn James, Caerfyrddin, ar banel 'Enwebu' y Gyngres ac fe arweiniodd y Parchedig Christopher Gillham, gweinidog yn Hwlfordd, un o'r gweithdai gynhaliwyd ar ryddid i wasanaethu.

DR COENIE BURGER

Rhyddid mewn addoliad oedd pwnc y Parchedig Ddr Coenie Burger, Cyfarwyddwr Addysg Ddiwinyddol Barhaol y Brifysgol. Pwysleisiodd yr angen i wneud crefydd yn ddealladwy. Dadleuai fod litwrgi wedi ei ffurfio ar gyfer anghenion oes benodol ond fod gennym ni'r rhyddid i arbrofi. Nododd y peryglon o boeni am faint cynulleidfa yn hytrach nag am argyhoeddiad a gweledigaeth y gynulleidfa. Ac os na ddaw'r gynulleidfa atom ni ...? Yr hyn a wnaeth Iesu, meddai, oedd mynd at y bobl yn hytrach nag aros i'r bobl ddod ato Ef. Gorffennodd ar nodyn

diddorol iawn yn cymharu nodweddion Eglwys y Bugail Da gyda nodweddion Eglwys y Ddafad Ddu!

CENHADAETHG

Yr Athro Xilole Simon, Uwch-ddarlithydd mewn diwinyddiaeth ymarferol a chenhadaethg (*missiology*), oedd yn arwain y drafodaeth ar ryddid meddwl. Bodau ysbrydol ydyn ni, meddai. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o wybod 'pwy ydw i' gan

nodi'r anawsterau a gafodd y gymuned Iddewig Gristnogol gynnar oedd yn ansicr o'i



Parchg Ddr Charlie Packer gyda'r Parchg Ddr R. Alun Evans

hunaniaeth. Wedi dweud fod cariad Crist yn creu'r gofod angenrheidiol i Ddyn ddod i nabod yr hunan fe awgrymodd fod pregethu am Grist yn codi o ofynion pobl, nid o destunau Beiblaidd. Dyw syniadau, meddai, ddim yn newid y byd. Pobl sy'n newid y byd dan ddylanwad syniadau.

DR JOHN W DE GRUCHY

Herio Cynulleidfaoliaeth a wnaeth Dr John W de Gruchy, academydd a heddychwr blaenllaw yn y frwydr gwrth-*apartheid* lleol. Perygl Cynulleidfaoliaeth, meddai'r darlithydd, yw bod yn ynysig ac wedi'n hinswleiddio. Gogoniant Cynulleidfaoliaeth yw'r parodwrwydd i gysylltu â chynulleidfa oedd eraill. Dyw 'unigolyn' ddim yn air Beiblaidd. 'Person' yw'r gair Beiblaidd – person sy'n perthyn i gymuned yng nghorff Crist. Nododd yntau mai labordy yw eglwys sy'n arbrofi. Wrth arbrofi fe wneir camgymeriadau. Ond wrth arbrofi hefyd byddwn yn darganfod gwirioneddau. Y darlithydd olaf, ar bwnc rhyddid i wasanaethu oedd y Parchedig Leon Klute. Ofnai ef ein bod wedi'n llyffetheirio gan yr awydd i lwyddo. Dyfynnodd o'r bennod am 'Ostyngieddrwydd Cristnogol' [Philipiad 2] am Iesu: 'dewisodd ei roi ei hun yn llwyr i wasanaethu eraill, a gwneud ei hun yn gaethwas.'

Er bod niwl ar y mynydd, y Table Mountain, fe lwyddwyd, cyn troi am adre, i fynd i Ynys Robben lle carcharwyd Nelson Mandela. Clo cofiadwy a chynhadledd gofiadwy. Diolch i'r Dr Geraint am ei lywyddiaeth gadarn. Cynhelir y gynhadledd nesaf yn Plymouth Massachusetts yn 2020 i ddathlu taith y Tadau Pererin ar long y *Mayflower* yn 1620.

R Alun Evans



Dathlu yn Leipzig a Wittenberg

Adroddiad cyntaf o Gyngor Cyffredinol Cymundeb Byd-eang yr Eglwys Diwygiedig.

'Dduw byw, adnewyddu a thrawsffurfia ni'. Dyma oedd thema seithfed Cyngor Cyffredinol Cymundeb Byd-eang yr Eglwys Diwygiedig a gynhaliwyd yn Leipzig yn nwyrain yr Almaen o 27 Mehefin hyd 7 Gorffennaf eleni. Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn aelod o'r Cymundeb Diwygiedig a braint i Carys Mair Jones, Hefin Jones a minnau oedd cael cynrychioli'r Undeb mewn cynhadledd gyffrous, heriol ac ysbrydoledig. Sefydlwyd y Cymundeb hwn yn Grand Rapids, Michigan, UDA yn 2010 yn uniad rhwng Cynghrair Byd-eang yr Eglwys Diwygiedig (a ffurfiwyd yn ei dro gan Eglwys Presbyteriaidd ac Annibynnol yn 1970) a'r Cyngor Diwygiedig Ecwmenaidd.

80 Miliwn

Y mae'n cynnwys 230 o eglwys ac enwadau Protestannaidd a Diwygiedig mewn 108 o wledydd sy'n cynrychioli dros 80 miliwn o Gristnogion. Daeth tua 400 ohonom at ein gilydd eleni i ddathlu, i addoli ac i benderfynu. Roedd hyn ynddo'i hun yn brofiad amheuthun: cael bod yn rhan o ddigwyddiad byd-eang a ddygodd bobl o'r fath amrywiaeth o wledydd a



Dr Noel Davies, Carys Mair Jones a Dr Hefin Jones

diwyllianau ac amgylchiadau at ei gilydd, a phawb ohonynt yn arddel yr un etifeddiaeth Gristnogol wedi ei llunio gan y Diwygiad Protestannaidd. Mae pob cynulleidfa Annibynnol yng Nghymru yn rhannu yn y teulu hwn ac yn rhannu'r etifeddiaeth gyfoethog ac amrywiol hon. Pan deimlwn yn ynysig cofiwn am y teulu mawr!

Diwygio'r Eglwys

Aethom i Leipzig, wrth gwrs, am fod y ddinas odidog hon gerllaw Wittenberg, y dref lle treuliodd Martin Luther y rhan fwyaf o'i fywyd a'i weinidogaeth, a minnau eleni yn dathlu 500 mlynedd ers iddo hoelio ei 95 datganiad ar ddrws Eglwys y Castell yn Wittenberg, er bod llawer o ysgolheigion bellach yn amau a ddigwyddodd hynny! Ei amcan oedd tynnu sylw at faterion pwysig a gredai ef oedd o le yn Eglwys Babyddol ei ddydd er mwyn ysgogi'r Eglwys i ddiwygio athrawiaeth ac arfer. Nid dyma'r lle i fanylu ar y 95 datganiad ond roedd dau ddatganiad yn sefyll allan.

Sola Scriptura

Y cyntaf a'r pwysicaf, mae'n siŵr, oedd yr egwyddor o *sola scriptura*, sef, yr ysgrythur yn unig. Yr ysgrythur yw sail a sylfaen y bywyd Cristnogol ac y mae gan bawb oll y fraint a'r hawl i ddarllen a deall Gair Duw yn y Beibl drostynt eu hunain. Nid gan yr Eglwys, nid gan offeiriad nac esgob na phab, y mae'r hawl i ddehongli'r Beibl i'r credadun. Y mae'r Ysbryd

Glân yn datguddio gwirionedd y Gair yn uniongyrchol i ferched a dynion sy'n ceisio deall a chredu'r newyddion da drostynt eu hunain.

Trwy Ffydd

Yr ail wirionedd sylfaenol oedd bod yr Efengyl yn datgan cyfiawnhad drwy ffydd yng Nghrist i bawb sy'n credu. Dyma fygwth y drefn o werthu maddeuebau (*indulgences*) oedd yn greiddiol i'r Eglwys Babyddol ar y pryd. Am swm o arian a dalwyd i'r eglwys drwy offeiriad gellid prynu lle'r credadun ym mharadwys. Daeth yr Eglwys yn gyfoethog drwy'r maddeuebau hyn. Yn wir, ariannwyd llawer o adeiladau'r Fatican yn Rhufain drwy'r cyfoeth hwn! Credai Luther, fodd bynnag nad arian sy'n prynu maddeuant. Rhodd gras Duw yn Iesu Grist yw cyfiawnhad ac nid yw arian yn ei brynu.

Trawsffurfia ni

Cawn glywed mwy am Luther, y pethau da a drwg amdano, yn nes ymlaen yn y gyfres hon. Am y tro digon yw dathlu'r ffaith iddo sbarduno diwygiadau a roddodd fod i'n traddodiad ni a thraddodiadau diwygiedig eraill. Yn ein hachos ni fel Annibynwyr, Zwngli a Calfin yn yr Yswidir a fu'n gyfrifol am ddehongli a gweithredu diwygiadau Luther mewn modd a arweiniodd at gychwyn cynulleidfaoedd Pwritanaidd ac Annibynnol.

Y cof am y diwygiadau hyn, gychwynwyd 500 mlynedd yn ôl yn 1517, arweiniodd at thema'r Cyngor dathlu hwn, 'Dduw Byw, adnewyddu a thrawsffurfia ni'. Byddai'r thema hon yn llywio llawer a ddigwyddodd yn Leipzig.



Martin Luther

Noel Davies

O Ddinbych-y-pysgod i'r Bala a Thrawsfynydd

Diwedd Mehefin daeth dau ddwsin o blant ac oedolion ar drip ysgol Sul y Tabernacl, Hendy-gwyn i Ddinbych-y-pysgod. Ar ôl dal trên 10 o'r gloch o Hendy-gwyn cafwyd diwrnod i'w gofio ar y traeth. Er bod yna gymylau uwchben fe arhosodd yn sych a bu'r plant yn chwarae ar y tywod ac yn y môr trwy'r dydd. Fe wnaeth pawb fwynhau ac roedd rhaid cael hufen iâ cyn dod adref!

Yna, ganol Gorffennaf, aeth llond bws o aelodau a ffrindiau capeli Annibynnol ardal Hendy-gwyn a Sanclêr ar daith i'r gogledd gan ddechrau am 8.30 y bore. Stopiodd y glaw wrth i ni gyrraedd Byd Mari Jones yn y Bala ddiwedd y bore. Ar ôl dysgu mwy am Mari Jones a bwyta ein brechdanau ymlaen a ni. Roedd yr haul yn gwenu



erbyn cyrraedd Yr Ysgwrn ger Trawsfynydd, cartref Hedd Wyn. Gwnaeth nai Hedd Wyn, sef yr annwyl Gerald Williams, ynghyd â'r cyfeillion o Barc Cenedlaethol Eryri, ddangos y cartref a'r Gadair Ddu i bawb.

Yna galw am swper blasus yn Llety Parc, Aberystwyth ar y ffordd adref cyn cyrraedd nôl yn Hendy-gwyn am 10.30 y nos ar ôl diwrnod bendigedig.

Guto Llywelyn

Cofio Pantycelyn

Teithiodd aelodau Capel yr Alltwen a Soar, Maes-yr-haf, Castell-nedd ar eu pererindod flynyddol ar Sul, 25 Mehefin, y tro yma i ardal Llanymddyfri. Wedi cyrraedd yno ymunodd y fintai gydag aelodau Capel Coffa William Williams ar gyfer oedfa. Y gweinidog, y Parchg Leonard Phelps, Americanwr brwd, wedi oes o weinidogaethu yn yr UDA, arweiniodd y gwasanaeth. Cinio ysgafn yng ngwesty'r Castell ac ymlaen ar hyd heolydd cul Dyffryn Tywi a chyrraedd Pantycelyn, cartref y Pêr Ganiedydd.

Y Ffermdy a'r Fynwent

Cawsom groeso gwresog Cecil, disgynnydd uniongyrchol i Williams, a'i briod yn eu cartref cysurus. Fe'n tywyswyd o stafell i stafell a gweld cloc a llestri o gyfnod Williams. Roedd tudalen o Lyfr Ymwelwyr y cartref o flwyddyn 1915 yn arddangos llofnod Lloyd George a'i deulu, a llyfr arall yn cofnodi ymweliad Aelwyd yr Urdd, Castell-nedd a Methodistiaid y Creunant yn 1949. Cyn dychwelyd, rhaid oedd talu gwrogaeth i Williams ar lan ei fedd ym mynwent Llanfair-ar-y-bryn a chanu un o'i emynau mwyaf: 'Mi dafla' maich oddi ar fy ngwar'. Braff oedd cael cwmni Irwyn Gealy – yn wreiddiol o'r Tymbel ac yn gyn-athro Saesneg yng Ngholeg Llanymddyfri – wrth iddo ein tywys o gwmpas y fangre gysegredig a rhyfeddu at ffenestri lliw'r diweddar athrylith John Petts.




Tua thre

Pryd o fwyd blasus yn y Plough, Rhos-maen oedd coron ar ddiwrnod cofiadwy cyn dychwelyd i gymoedd Nedd a Thawe. Diolch arbennig i Delma James ac Alun Wyn Bevan am y trefniadau penigamp ac i'r Parchedig Gareth Morgan Jones am ei sylwadau diddorol ar hyd y siwrne.



Oes gennych chi gopi?



Mae'r Parch Wena Parry yn chwilio am gopi o'r llyfryn *Odlau'r Diwygiad* sef emynau Torrey Alexander wedi eu cyfieithu i Gymraeg gan John Nicholas. Os oes gennych gopi o'r llyfryn byddai Wena yn falch iawn o glywed gennych, bywyd.newydd@talktalk.net

CYFEIRIAD

Dyma fanylion ysgrifennydd newydd Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd,
Mr Arwyn Owen Hughes
 Tan y Ffynnon
 Llithfaen
 Pwllheli
 Gwynedd
 LL53 6PA
 Rhif ffôn: 01758 750666

LANSIO MUNUD YN DY GWMNI

Casgliad o weddïau a myfyrdodau gan Owain Llyr Evans
 (Cyhoeddiadau'r Gair, 2017)

Mae aelodau Eglwys Minny Street, Caerdydd yn ymwybodol iawn o gyfoeth arweiniad addoliad y Gweinidog, y Parchedig Owain Llyr Evans, o Sul i Sul – nid yn unig drwy gyfrwng pregeth, ond hefyd mewn myfyrdod a gweddi gynulleidfaol. Braff felly oedd deall bod rhai o'r myfyrdodau a'r gweddïau hyn wedi cael eu casglu at ei gilydd mewn cyfrol.



Profiad Ysbrydol

Mawr oedd yr edrych ymlaen at lansio'r gyfrol fore Sul, 23 Gorffennaf, a hynny'n briodol ddigon yn dilyn oedfa a arweiniodd gan Gyfarwyddwr y Cyngor Ysgolion Sul a Chyhoeddiadau'r Gair, y Parchedig Aled Davies. Wrth i Owain Llyr dderbyn y copi cyntaf o'r gyfrol, soniodd mai gwraidd ei chynnwys oedd ei brofiad ysbrydol a gweinidogaethol yn Eglwys Minny Street. Ei obaith yw y bydd cynulleidfa ehangach bellach yn medru gwneud defnydd o gynnwys y gyfrol ac yn cael eu hysgogi i fentro ar anturiaeth fawr ein ffydd: gweddi a gweddi. Ar dudalennau'r gyfrol ceir 50 o weddïau a myfyrdodau – deunydd sydd yn addas ar gyfer cynulleidfa, ar gyfer grwpiau bychan neu ar gyfer defosiwn personol. Adlewyrchir holl ystod y Flwyddyn Eglwysig o fewn y gyfrol ac anogir y darlennydd i addasu'r cynnwys fel bo'r angen ac fel bo'n briodol.



Yn ystod y lansiad, clywyd ychydig o gynnwys y gyfrol wrth i Lona Evans gyflwyno myfyrdod ar y thema 'Ffydd, Gobaith a Chariad', ac wrth i Bethan Jones gyflwyno gweddi dan y pennawd 'Chwynnu'.

Cyfle wedyn i bawb amgylchynu bwrdd y gwerthu i sicrhau eu copi o'r gyfrol a tharo golwg gyntaf drosti wrth fwynhau panned a chacennau.

'... mae munud yn dy gwmni yn newid gwerth y byd ...'
 (Elfed, 1860–1953)

Bethan Jones

Barn Annibynnol

CREADIGRWYDD YN CREBACHU

Does dim un awr lle nad oes cerddoriaeth i'w glywed rhywle yn y tŷ. Ar y radio, ar beiriant CD y car, ar fy ffôn, ar fideos ar y teledu, mewn siopau, mewn caffis – mae cerddoriaeth i'w glywed rhywle, rhywbryd. I ni fel Cristnogion yng Nghymru, mae cerddoriaeth yn rhan allweddol o'n haddoliad. O emyn-donau mawr ein cenedl i alawon siantau Taizé, alawon cyfoes *Grym Mawl* ac yn fwy diweddar cyfrolau ardderchog Canu Clod. I nifer ohonom, rydym yn gallu mynegi ein hunain drwy gerddoriaeth, drwy chwarae offeryn neu ganu neu gyfansoddi. Mae'n agwedd hollol hanfodol o'n bodolaeth ni fel bodau dynol ac wedi bod yn rhan o'n byd ni ers dros 40,000 o flynyddoedd yn ôl y gwybodusion.



Elin Maher



Ond mae gen i bryder mawr fod magu cerddorion y dyfodol yn prysur ddod yn agwedd elitaidd, bydd y gwersi cerdd yn yr ysgol ond ar gael i'r rhai sy'n medru talu amdanynt. Mae'n bwnc academaidd sydd yn gynyddol ddiplannu o'n cwricwlwm ac o'n cymunedau ac mae athrawon cerdd yn mynd yn brin iawn. Sawl organydd sydd ar ôl yn ein capeli? Mae CD yn lle'r organydd neu'r cyfeilydd yn sefyllfa drist i mi.

Mae cerddoriaeth yn crebachu.

Effaith cerddoriaeth

Ym mis Mai eleni, cefais y profiad o fynychu cyfarfod gyda CWM yn Johannesburg, De Affrica, i drafod rhaglen TIM – Training in Mission. Rhaglen ydyw sydd wedi bod yn danfon cenhadon i weithio ar hyd a lled y byd. Ar ganol sesiwn bore'r ail ddiwrnod, yn sydyn, dyma fi'n clywed sŵn yn dod o'r tu fas. Roedd hi'n amser coffi ac yn amser mynd am saib ond fe godais, gyda nifer o rai eraill a mynd yn syth i'r drws i chwilio am y sŵn. Y tu allan i'r capel bychan oedd ar dir y gwesty, roedd cynulleidfa yn gadael gwasanaeth coffa, i sŵn côr lleol yn canu'r emyn, 'Mor fawr wyt Ti' i gyfeiliant drymiau. Roeddwn i ac eraill yn ein dagrau.

Mae grym cerddoriaeth yn anhygoel. Mae'n fy nghodi, fy lleddf, mae'n dod nôl ag atgofion, mae'n fy nghyffroi, mae'n fy llorio – mae cerddoriaeth yn gallu mynd â mi drwy bob emosiwn dan haul. Mae cerddoriaeth hefyd yn fy nghynorthwyo

gyda bywyd bob dydd, Mae'n rhoi'r cyfle i'r ymennydd ymlacio a gwefru. Mae cerddoriaeth yn therapi. Mae cerddoriaeth yn hanfodol i gymdeithas wâr.



Eisteddfodau – calon creadigrwydd Cymru?

Rydym ar fin cychwyn wythnos arall o wledd i'r glust, lle byddwn yn clywed goreuon cerddorion Cymru yn dod ynghyd i gystadlu ac i berfformio ar lwyfan ein prifwyl. Bydd y pafiliwn yn llawn ar gyfer nifer fawr o'r cyngherddau nos, byddwn yn clywed deongliadau o gerdd dant i ganu corawl, unawdau plant i un o gystadlaethau pwysicaf yr ŵyl yn fy marn i, sef cystadleuaeth i gyfeilyddion – mae'n bwysig magu a dathlu cyfeilyddion y dyfodol. Bydd cyd-ganu brwd yn lolfeydd Cymru gyda'r gymanfa. Ac ar ddiwedd yr wythnos byddwn wedi cael chwistrelliad arall o greadigrwydd. A bydd popeth yn dda. Cymru gwlad y gân.

Ond nid yw hyn yn ddigon

Rydym newydd glywed am lwyddiant Côr Merched Sir Gâr yn dod yn ail ar lwyfan rhyngwladol yr Eurovision yn Latfia. Pleser pur oedd eu clywed yn perfformio. Profiad anhygoel i'r merched heb os nag oni bai. Un o nifer o gorau gwasanaeth Awdurdod Lleol Sir Gâr yw'r côr hwn. Un gwasanaeth cerdd o ddegau ar draws Cymru, sydd yn gwegian ac yn brwydro i gadw profiadau fel hyn ar gael i'n hieuenctid, er mwyn cynhyrchu cerddorion y genhedlaeth nesaf.

Cynulliad Cymru yn ymateb

Ar hyn o bryd, cynhelir ymholiad gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Llywodraeth Cymru dan gadeiryddiaeth Bethan Jenkins AC ar

Ariannu addysg cerddoriaeth a mynediad ati. Trist iawn oedd y dystiolaeth a ddaeth gan nifer o arbenigwyr yn y maes. Yr un oedd y neges. Heb ariannu haeddiannol, bydd y gwasanaethau hyn yn diflannu ac yn aml clywyd am y gwerth ychwanegol a chadarnhaol y mae cerddoriaeth mewn addysg yn ei gael ar y disgyblion, yr athrawon, y cynulleidfa oedd ac yn y pendraw yn anochel ar gymdeithas.

Effaith toriadau

Nododd Vikki Heywood yn ei rhagair i adroddiad Comisiwn Warwick ar ddyfodol Gwerthoedd Diwylliannol yn 2015:

'Neges allweddol yr adroddiad hwn yw bod angen i lywodraeth a'r Diwydiannau Diwylliannol a Chreadigol gymryd camau unedig a chydlynol er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bawb i addysg ddiwylliannol gyfoethog a'r cyfle i fyw bywyd creadigol. Mae rhwystrau ac anghydraddoldeb ym Mhrydain heddiw sy'n atal hyn rhag bod yn hawl ddynol gyffredinol. Mae hyn yn ddrwg i fusnes ac yn ddrwg i gymdeithas.'

Ond parhau i glywed am doriadau mewn gwasanaethau a phrinder athrawon yn y meysydd creadigol a wnawn yn hytrach na chydweithio'n rhagweithiol er mwyn sicrhau cyfleoedd creadigol yn ein system addysg – sydd ond yn mynd i gynorthwyo ein cymunedau ni. Am ba hyd allwn ni ysgrifennu adroddiadau yn hytrach na gweithredu? A fydd diwedd i'r gân oherwydd diffyg y geiniog?

Elin Maher

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

Cyfarchion y Llywydd

Pleser i mi fel Llywydd Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg yw anfon cyfarchion gan dymuno'n dda i gyfeillion Ynys Môn yn ystod cyfnod yr Eisteddfod Genedlaethol. Rwy'n siwr ein bod ni oll yn edrych ymlaen i ymweld â'r Ynys yn ystod ein Gŵyl Genedlaethol.

Bob nos wrth i mi noswyllyo byddaf yn edrych o Landudno draw at yr Ynys ac yn dwyn i gof ei harwyr a sicrhodd ein bod ninnau heddiw yn mwynhau yr hyn a drosglwyddwyd i ni drwy'r emynau a thonau a gyfansoddwyd gan gyfeillion Môn.

Wrth feddwl am yr Ynys, rhaid cofio bod dwy bont yn ein galluogi i groesi'r Fenai. Bydd pontydd eraill ar faes yr Eisteddfod megis Pabell yr Eglwysi, lle bydd cyfle i Gristnogion o bob enwad ymgynnull i addoli, i ymdawelu o fwrlwm y prysurdeb, i gyfarfod â chyfeillion a hefyd i greu cysylltiadau o'r newydd.

Onid da o beth yw ein bod yn gallu dod ynghyd, beth bynnag fo'n cefndir, ac onid oes neges i ni fel Eglwysi y dyddiau hyn i

agosáu at ein gilydd yn llawer mwy.

Wrth i ni fwynhau yr hyn a ddarparwyd ar ein cyfer, a diolch am y rhai a fu'n llafurio'n ddiwyd yr sicrhau llwyddiant yr Ŵyl, diolchwn i Dduw am bopeth a dderbyniwn Wrth ddiolch, cofiwn am yr hyn a fynegodd Y Parch. John Roberts, a anwyd ar yr Ynys, yn ei emyn:

Cofiwn am gomisiwn Iesu cyn ei fyned at y Tad:
'Ewch, pregethwch yr Efengyl, gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad.'
Deil yr Iesu eto i alw yn ein dyddiau ninnau'n nawr; ef sy'n codi ac yn anfon gweithwyr i'w gynhaef mawr.

Pob bendith ar eich ymweliad

Glyn Williams

